CYNGOR SIR CEREDIGION

GWASANAETH YSGOLION

CORFF LLYWODRAETHU
YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL TALYBONT

4.00 – 5.30 PM, 23 MAWRTH 2022

Yn bresennol drwy Teams:	Bethan Davies (Cadeirydd), Cathryn Lloyd-Williams, Helen Ovens, Trish Huws, Llio Rhys, Rhian Nelmes, y Cynghorydd Rhian Evans (tan 5pm), Hefin Jones (Pennaeth).
	Pauline Lucas (Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr)

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredir gan*:
1	**YMDDIHEURIADAU:**		
	Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Ellen ap Gwynn a Siwan Evans. **PENDERFYNWYD** derbyn yr ymddiheuriadau.		
2	**DATGAN BUDDIANT / CYFRINACHEDD:** Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r pwyntiau canlynol:		
	a)	yr angen i ddatgan buddiant dan unrhyw eitem ar yr agenda, neu ymhob trafodaeth yng nghyfarfod y Corff Llywodraethu, lle byddai gofyn iddynt adael y cyfarfod;	
	b)	y byddai pob buddiant sy'n cael ei ddatgan yn cael ei gofnodi;	
	c)	bod yr eitemau a drafodir yn y cyfarfodydd yn gyfrinachol ac na ddylid eu trafod yn gyhoeddus.	
	PENDERFYNWYD nodi'r uchod.		
3i	**COFNODION:**		
	Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2021, a byddent yn cael eu llofnodi yn ddiweddarach oherwydd cyfyngiadau Covid-19.		
3ii	**MATERION YN CODI O'R COFNODION:**		
	a)	**Cofnod 2v Traffig y Tu Allan i'r Ysgol**: Nodwyd y derbyniwyd gohebiaeth gan Weinidogion. Gellid ystyried hebryngwyr croesfannau ysgol, a chyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yw hyn. Roedd y goleuadau 20mya yn cael eu monitro'n ofalus gan nad oeddent yn gweithio bob amser. Roedd angen archwiliad o'r ffordd ar adegau prysur. Roedd y Llywodraethwyr yn cefnogi'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. **PENDERFYNWYD**:	Cadeirydd/P

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredir gan*:
		Y byddai'r Llywodraethwyr yn ymateb, gan ofyn am eglurhad ar rai pwyntiau a godwyd yn y llythyr; Gofyn am gopi o'r adroddiad gan Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru (MWTRA); Bod angen croesfan yn y pentref, ac nid Hebryngwyr Croesfannau yn ystod amseroedd ysgol yn unig; Gofyn i'r Cynghorau Cymuned gymryd rhan mewn trafodaethau, gan gynrychioli'r pentref.	ennaeth
4	**COFNODION PWYLLGORAU:**		
	PENDERFYNWYD nodi'r canlynol: Cyllid: Roedd copi o'r Monitro Ariannol wedi'i uwchlwytho ar Teams yn flaenorol a byddai'n cael ei drafod fel rhan o adroddiad y Pennaeth. Iechyd a Diogelwch, Adeiladau a Safleoedd; **PENDERFYNWYD** nodi bod yr Archwiliad Iechyd a Diogelwch wedi'i gwblhau; Staffio a Phersonél: Nodwyd bod y Cylch Rheoli Perfformiad wedi'i gwblhau.		
5	**CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH AR GYFER CEFNOGI LLYWODRAETHWYR:**		
	Dosbarthwyd copïau o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Clercio Cyrff Llywodraethu i'r Aelodau yn flaenorol. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**		
	Prynu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Clercio Cyrff Llywodraethu ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/2023 ar gost o £943.48		
	Bod y dyddiadau canlynol wedi'u pennu ar gyfer cyfarfodydd y Corff Llywodraethu yn 2022/23: Tymor yr Haf: 09/06/2022 Tymor yr Hydref: 10/11/2022 Tymor y Gwanwyn: 22/03/2023 Diolchwyd i'r Clerc am ei chymorth.		
6	**ADRODDIAD Y PENNAETH:**		
	Dosbarthwyd copi o adroddiad y Pennaeth i'r Aelodau yn flaenorol. Cafwyd trafodaeth ynghylch y materion canlynol:		
	a)	Nodwyd na fyddai'r Cynghorydd Ellen ap Gwynn yn sefyll i gael ei hailethol yn Etholiadau mis Mai, felly byddai ei thymor fel Llywodraethwr yn dod i ben. Diolchodd y Pennaeth iddi am ei chefnogaeth a'i gwaith caled dros flynyddoedd lawer.	
	b)	Dywedodd y Pennaeth fod y 3 wythnos diwethaf yn yr Ysgol wedi bod yn heriol ac yn ofidus. Roedd y disgyblion wedi ymdopi'n dda ac roeddent yn hapus. Roedd pryder ynghylch presenoldeb rhai disgyblion yn yr Ysgol ac	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredir gan*:
		roedd cyfarfodydd wedi'u trefnu. Roedd disgyblion ADY wedi cael eu harchwilio i weld a oeddent yn bodloni'r meini prawf newydd ac i symud i'r Cod ADY newydd. Diolchwyd i staff yr ALl am ddarparu siart llif i gynorthwyo gyda'r broses anodd ac i wneud penderfyniadau. Byddai canran fechan o Ddisgyblion yn derbyn CDU ym mis Medi. Mae disgyblion yn derbyn ymyrraeth amrywiol ac ymyrraeth wedi'i thargedu o safon uchel gan Staff ymroddedig. Bydd rhieni'n derbyn llythyrau yn rhoi gwybod iddynt am unrhyw benderfyniadau ynghylch ADY. Byddai pob Disgybl yn derbyn Prydau Ysgol am Ddim o fis Medi 2022 ymlaen. Mae Rhian Nelmes wedi monitro llyfrau gwaith disgyblion ac roedd yn fodlon gyda'r hyn a welodd. Mae'r disgyblion yn mwynhau eu gwaith ac mae eu hymateb wedi bod yn wych. Maen nhw eisiau dysgu ac mae'n bleser bod yn y gwersi gyda nhw.	
	c)	Dywedodd y Pennaeth ei fod yn falch iawn o'i staff a'r ffordd y maent wedi ymdopi, a'u hymateb i wahanol sefyllfaoedd heriol. Mae wedi bod yn anodd cynllunio gydag absenoldebau staff a disgyblion. Mae'r staff yn parhau i fod yn frwdfrydig ac maent yn cael eu gwerthfawrogi. Llongyfarchwyd Buddug ar ennill y cymhwyster Rheolaeth Ganol, hi hefyd yw Cydlynydd ADY yr Ysgol. Derbyniwyd llythyr gan Shauna Hutton yn ymddiswyddo o'i swydd, diolchwyd iddi am ei holl waith caled a dymunwyd y gorau iddi ar gyfer y dyfodol. Byddai newidiadau dosbarth yn cael eu gweithredu ar gyfer tymor yr Haf a'u hadolygu ym mis Medi. Byddai 4 disgybl newydd yn mynychu'r Cyfnod Sylfaen ar ôl y Pasg.	
	d)	Roedd llawer o bwyslais ar les ar hyn o bryd. Llio oedd y Cydlynydd Ysgolion Iach ac roedd wedi mynychu cyfarfod lle codwyd Lles Staff. Mae hi wedi bod yn gofyn i'r staff sut maen nhw'n teimlo, mae staff wedi penderfynu cwrdd i gael sgwrs dros gacen a choffi ac mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth mawr, mae rhai o'r staff hefyd yn cwrdd i fynd am dro amser cinio. Mae polisïau a dogfennau wedi'u hadolygu ac maent ar gael yn rhwydd i'r staff.	
	e)	Byddai'r ALl yn ariannu gwaith ar y ffens o amgylch y maes parcio. Mae angen ail-wneud gwaith paentio ar yr iard a byddai'r plant yn cyfrannu at y dyluniad. Roedd y Cyngor Ysgol yn frwdfrydig ac yn llwyddiannus wrth gynllunio gweithgareddau. Byddai lloriau newydd yn cael eu gosod yn ystod gwyliau'r Haf. Roedd y Monitro Ariannol eisoes ar gael i'r Aelodau, a nodwyd y rhagwelir gwarged ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Derbyniwyd grantiau amrywiol.	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredir gan*:
		Byddai'r lefelau staffio yn aros yr un fath. Byddai'r cyllid yn cael ei fonitro gan y rhagwelir y byddai nifer y disgyblion yn gostwng.	
7	**CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETH:**		
	PENDERFYNWYD cytuno y byddai arian yn cael ei dynnu i brynu tocynnau llyfr i'r disgyblion a fyddai'n gadael blwyddyn 6 ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.		
8	**HYFFORDDIANT I LYWODRAETHWYR**		
	Nodwyd bod hyfforddiant ar-lein yn parhau a bod y Cadeirydd wedi mynychu'r Fforwm Llywodraethwyr a gynhelir bob tymor.		
9i	**POLISÏAU – DOGFENNAU STATUDOL:**		
	PENDERFYNWYD nodi bod y Dogfennau Statudol canlynol ar gael yn yr Ysgol: Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni Cofrestr Buddiannau Busnes – RP1/2 (Ffurflen ar Teams) Cynllun Datblygu'r Ysgol Llawlyfr/Prosbectws yr Ysgol Adroddiad Hunanwerthuso'r Ysgol **I'w hadolygu os bydd newidiadau wedi digwydd:** Cynllun Hygyrchedd (bob 3 blynedd) Cynllun Gweithredu yn dilyn Arolwg yr Ysgol Trefniadau Asesu (yn statudol ar gyfer diwedd y Cyfnod Sylfaen a CA2/3) Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth Lwfansau Llywodraethwyr: **PENDERFYNWYD** nodi na fyddai unrhyw daliadau'n cael eu gwneud i'r Aelodau ar gais Offeryn Llywodraethu Cofnodion a Phapurau Pwyllgorau a Chyfarfodydd y Corff Llywodraethu Cofrestr Disgyblion Cynlluniau Pontio.	
9ii	**POLISI URDDAS YN Y GWAITH I YSGOLION:**		
	Dosbarthwyd copi o'r Polisi i'r Aelodau yn flaenorol. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Polisi.		
9iii	**POLISI RHEOLI ABSENOLDEB OHERWYDD SALWCH YN Y GWAITH:**		

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredir gan*:
	Dosbarthwyd copi o'r Polisi i'r Aelodau yn flaenorol. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Polisi.		
10	**GOHEBIAETH / MATERION PERSONOL:**		
	a)	Croesawyd Rhian Nelmes i'w chyfarfod cyntaf o'r Corff Llywodraethu llawn fel Llywodraethwr yr ALl.	
	b)	Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth a holl staff yr ysgol am eu gwaith caled yn yr hyn sy'n parhau i fod yn amgylchedd heriol.	
11	**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**		
	PENDERFYNWYD nodi y byddai cyfarfod nesaf y Corff Llywodraethu Llawn yn cael ei gynnal ar 09/06/2022.		

PL
30:03:2022